

What is lost... what has been

John Paul Evans

Ymson weledol yw *What is lost ... what has been* i 'gyfeillion absennol', pobl a ystyriwn i fel teulu. Mae'r gweithiau hefyd yn goda i'm gosodwaith in the sweet bye & bye oedd yn gathecsis ffotograffig mewn ymateb i farwolaeth fy ffrind agosaf ym mis Rhagfyr 2017. Daeth ei farwolaeth yntau ag atgofion yn ôl am ffrind agos fy nhad a fu farw ychydig flynyddoedd ynghynt. Dyn caredig a gofalgwr oedd ffrind fy nhad oedd wedi fy helpu drwy rai amserau anodd iawn pan oeddwn yn oedolyn ifanc. Mae'r broses hunan-ethnograffig o weu'ch hanes personol yn ddeialog gweledol yn ffordd fuddiol o edrych ar duedd ffotograffiaeth tuag at goffáu a hefyd ddadansoddi syniadau am berthyn/arwahanrwydd, galar a phrudd-der mewn cysylltiad â'r albwm ffotograffig teuluol.

Fel academydd, roeddwn i'n feirniadol o'r hyn a gynrychiolir gan yr 'albwm teuluol' o ran normalrwydd ac arwahanrwydd, felly does fawr o dystiolaeth ffotograffig i gynrychioli'r 33 o flynyddoedd y mae fy ngŵr Peter a finnau wedi treulio gyda'n gilydd.

A Peter bellach yn ei 80au a bron â bod yn 30 mlynedd yn hŷn na fi, roedd fel pe bai tipyn o frys i wneud gwaith gyda'n gilydd i edrych ar gysyniadau o barau a chynrychiolaeth o'r teulu. Yr ystumiau perfformiadol y byddwn i'n eu disgrifio'n drasig/comig, gan ddarlunio 'pâr od'. Ond mae'r pâr yma sy'n benben â'u hamgylchedd hefyd yn dwyn i gof 'galar rhagweledol'¹ pâr sydd wedi cyrraedd pwynt gwahanol ar daith bywyd. "Hyd yn oed cyn i'r anwylyd fynd, gosodir ysbryd ei ddiflaniad yn ei le."²

Cyfuniad yw'r teitl o syniadau am alaru a phrudd-der yr ymdrinnir â nhw gan Darian Leader yn *The New Black* a myfyrdod Roland Barthes ar golli'i fam, *Camera Lucida*. Yn arbennig o berthnasol i ffotograffiaeth yw'r cysyniad o goffáu. Yn ôl datganiad enwog Roland Barthes, "Nid yw'r ffotograff o anghenraid yn dweud yr hyn nad yw bellach yno ond dim ond ac i sicrwydd yr hyn sydd wedi bod."³ Byddwn yn ceisio dal ein hanwyliaid drwy'r ennyd ffotograffig, ond nid yw'r ymgais i rewi/dal/ynysu amser ond yn tystio i'r ffaith bod yr ennyd hon wedi mynd heibio, 'digwyddodd, darfu'.

Mae'r coflechi *tableau* yn aml yn ymgorffori ffrâm o fewn ffrâm sy'n caniatáu'r posibilrwydd o sigo amser er mwyn creu deialog rhwng y byw a'r marw. Mae adfywio'r ymadawedig yn tynnu 'ein sylw at gofrestr ffugioldeb'.⁴ Mae natur fynegeiol y cyfeirair ffotograffig a'r awgrym bod cymeriadau'n cyfathrebu ar draws amser a gofod yn creu'r rhith o'r hyn nad yw'n bosibl mewn bywyd go iawn, yr awydd i gyfathrebu â'r hyn a fu. Mae hunanbortreadaeth yn ein galluogi i gymryd rhan yn y weithred o golled/marwolaeth, i alaru am fywydau sydd wedi'u byw i'r eithaf a bywydau wedi'u gwastrodi gan syniadau o arwahanrwydd. "Mewn galar, alaethwn am y meirw; mewn prudd-der, rydyn ni'n marw gyda nhw."⁵

¹ Darian Leader *The New Black*

² Ibid

³ Roland Barthes *Camera Lucida*

⁴ Darian Leader *The New Black*

⁵ Ibid

© John Paul Evans

Mae'r testun hwn yn rhan o **What is lost... what has been**
Arddangosfa gan **John Paul Evans** yn **Oriel Mission**
26 Mawrth - 14 Mai 2022

Oriel Mission
Gloucester Place
Yr Ardal Forol
Abertawe, SA1 1TY
Y Deyrnas Unedig

www.missiongallery.co.uk
info@missiongallery.co.uk
+44 (0) 1792 652 016

Mission Gallery



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

